

Cymunedau Creadigol AHRC

Ymarferydd Arloesi Cymunedol 2025-26

Papur Polisi

BeHere: Perthyn,
Treftadaeth ac
Ecoleg –
Cyd-greu
Cymunedol
gyda'r
Ymddiriedolaeth
Genedlaethol,
Mount Stewart

Gogledd Iwerddon

Hydref 2026



Cyd-destun Polisi Datganoledig

Mae Gogledd Iwerddon wedi dal pwerau deddfwriaethol datganoledig dros ddiwylliant ers [Deddf Gogledd Iwerddon 1998](#). Fodd bynnag, nid oes polisi cyfredol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn bodoli, ac [nid yw'r polisi amgueddfeydd wedi'i ddiweddarau ers 2011](#). Nod y [Rhaglen Dreftadaeth, Diwylliant a Chreadigrwydd](#) yw llenwi a diweddarau'r bylchau polisi hyn. Mae'n nodi rôl treftadaeth, diwylliant a chreadigrwydd o ran lleihau anghydraddoldeb, cefnogi llesiant ac annog dulliau partneriaeth.

Gogledd Iwerddon sydd â'r gwariant isaf y pen ar [dreftadaeth](#) a'r [celfyddydau](#) ledled y DU. Mae argymhellion y papur polisi hwn mewn sefyllfa dda i fynegi gwerth sector sy'n cael ei ariannu a'i gefnogi'n dda ac sydd â chyfranogiad cymunedol wrth ei galon. Bydd hyn, ochr yn ochr ag ymchwil a gwerthuso hirdymor sy'n dangos newid cadarnhaol, yn denu mwy o fuddsoddiad ac yn sicrhau effaith fwyaf y gwariant presennol. Gellir cyflawni hyn drwy gydweithio rhwng [adrannau Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon](#), cyllidwyr lleol a chenedlaethol, sefydliadau o'r sectorau cymunedol, celfyddydol a threftadaeth a sefydliadau ymchwil y DU.

Gall treftadaeth yng Ngogledd Iwerddon atgyfnerthu ymdeimlad o allgáu oherwydd gwahanol ddealltwriaeth o'r gorffennol, rhwystrau emosiynol ac anghydraddoldebau strwythurol. Weithiau, gelwir hyn yn '[wrth-berthyn](#)', proses lle mae hunaniaethau ymylol yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach drwy waharddiadau bob dydd.

Yng [nghyd-destun datganoledig Gogledd Iwerddon](#), mae ymdrechion i fynd i'r afael â'r her hon wedi canolbwyntio ar gysylltiadau cymunedol, cynhwysiant diwylliannol a gwell mynediad, ac maent yn cael eu siapio gan [flaenoriaethau'r Swyddfa Weithredol](#). Fodd bynnag, mae'r ymyriadau sy'n deillio o hynny yn aml yn ymarferion tymor byr neu ymgynghoriad yn unig sy'n cyrraedd y rheini sydd eisoes yn ymgysylltu. Mae'r gwaith hyd yma wedi cael trafferth mynd i'r afael â'r rhwystrau emosiynol a strwythurol sy'n eithrio cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol o safleoedd treftadaeth yng Ngogledd Iwerddon.

Mae [Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon](#) (DfC) yn datblygu [Rhaglen Dreftadaeth, Diwylliant a Chreadigrwydd](#) sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad, hygyrchedd a chynhwysiant sy'n arwain at lesiant. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu a gwreiddio modelau ymyrryd arfer gorau sy'n trin perthyn fel proses hirdymor sy'n cael ei harwain gan y gymuned.

Mae [BeHere](#) yn bartneriaeth ymchwil blwyddyn o hyd rhwng [Prifysgol y Frenhines, Belfast](#), [yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [ArtsEkta](#), [Canolfan Deuluol a Chymunedol The Link](#) a [Chanolfan Menywod Kilcooley](#). Mae'n darparu sylfaen dystiolaeth newydd ar gyfer argymhellion ar sut gall y DfC fuddsoddi'n well mewn perthnasoedd rhyng-sectoraidd a

defnyddio dulliau cyfranogol a chreadigol i annog pobl o gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol i greu eu llwybrau eu hunain at berthyn i dreftadaeth.

Mae argymhellion y papur polisi hwn yn seiliedig ar yr ymchwil ac wedi'u cyfeirio at [Raglen Treftadaeth, Diwylliant a Chreadigrwydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon](#). Maent yn cyfleu camau gweithredu allweddol ar gyfer sectorau treftadaeth a chreadigol Gogledd Iwerddon ac yn ceisio dylanwadu ar bolisiau perthnasol ar draws adrannau Gweithredol, cyrff treftadaeth ac amgueddfeydd hyd braich, llywodraeth leol a thu hwnt.

Argymhellion

1. Gweithio gyda chymuned gyfan Gogledd Iwerddon i lunio polisi treftadaeth

Mae treftadaeth yn eiddo i bawb. Pan fydd pawb yn cymryd rhan, mae pawb yn elwa. Mae rhaglenni hirdymor, traws-sector, seiliedig ar berthynas yn galluogi sefydliadau i feithrin ymddiriedaeth a gweithio gyda phobl sydd wedi ymddieithrio neu sy'n teimlo eu bod wedi'u heithrio o dreftadaeth yng Ngogledd Iwerddon.

Argymhelliad: Ariannu rhaglenni hirdymor sy'n seiliedig ar berthynas sy'n ymestyn y tu hwnt i grwpiau sydd eisoes yn ymwneud â threftadaeth er mwyn galluogi grwpiau amrywiol i lunio polisi treftadaeth Gogledd Iwerddon. Gellir cyflawni hyn drwy ddarparu cymorth dros nifer o flynyddoedd ar gyfer gwaith cyfranogol sy'n meithrin gallu, arweinyddiaeth a diddordeb y tu hwnt i Gyrrff Hyd Braich a sefydliadau sefydledig.

2. 'Gwneud gyda' chymunedau yn hytrach na 'gwneud iddyn nhw'

Mae ein hymchwil yn dangos bod cyd-ddylunio ymyriadau mynediad at dreftadaeth yn arwain at ymgysylltu mwy â'r gymuned a pherthnasoedd mwy teg. Mae cyd-ddylunio yn creu hyder ac ymddiriedaeth, yn helpu cymunedau i archwilio treftadaeth ar eu telerau eu hunain, ac yn annog sefydliadau treftadaeth i gwestiynu eu rhagdybiaethau eu hunain am anghenion y gymuned. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i gyd-ddylunio fod yn gymwys fel gweithgaredd y gellir ei ariannu, yn

enwedig i gynnull grwpiau cyn dechrau prosesau ymgeisio am gyllid ehangach neu lle mae grwpiau'n wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb, trawma neu ddiffyg profiad.

Dylai cyfleoedd cyllido fynnu bod ymgeiswyr yn cynnwys arweinyddiaeth gymunedol a chyd-ddylunio yn eu cynigion, yn hytrach na dim ond cyfranogiad ac ymwneud cymunedol. Dylent hefyd neilltuo amser i helpu i oresgyn rhwystrau emosiynol sy'n gysylltiedig â diogelwch, anghynefindra ac anghydraddoldeb sy'n cyfyngu ar brofiad pobl Gogledd Iwerddon o fannau treftadaeth lleol a chenedlaethol. Gall mesurau syml fel ymweliadau dro ar ôl tro, gweithgarwch creadigol a thrafodaeth agored helpu pobl i deimlo'n fwy cyfforddus a datblygu ymdeimlad o berthyn.

Rhaid i safleoedd treftadaeth hefyd gymryd camau i greu amodau diogel sy'n hyrwyddo cynnwys cynulleidfaoedd newydd mwy amrywiol. Dylai llunwyr polisïau a chyllidwyr gydnabod ac ariannu'r gwaith sydd ei angen i feithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd rhwng safleoedd treftadaeth a chynulleidfaoedd newydd a gwreiddio anghenion cymorth emosiynol ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol wrth gynllunio a dylunio rhaglenni.

Argymhelliad: Mandadu dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma ac sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac sy'n seiliedig ar gyd-ddylunio a pherthnasoedd teg i rymuso cymunedau ar bob cam o brosiectau a ariennir gan Ogledd Iwerddon

i rannu gwybodaeth a chreu ecosystem dreftadaeth fwy cydnerth.

Drwy flaenoriaethu a darparu adnoddau ar gyfer modelau cyd-ddylunio a gwobrwyo arweinyddiaeth gymunedol mewn cyllid treftadaeth, gallwn ymgorffori'r dull hwn mewn strwythurau cyllido fel blaenoriaeth strategol. Bydd y cyllid yn darparu'r adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant ac arweiniad i staff treftadaeth, er mwyn i sefydliadau treftadaeth allu cwrdd â phobl lle maent, a mynd i'r afael ag anghyefindra llawer o safleoedd treftadaeth Gogledd Iwerddon i lawer o aelodau'r gymuned leol.

3. Ariannu cymunedau fel ymchwilwyr a datrwy'r problemau

Mae ein hymchwyl yn dangos bod arloesi dan arweiniad y gymuned yn fath hynod effeithiol o gyfranogiad diwylliannol. Pan fydd cymunedau'n cael eu grymuso fel cyd-ymchwilwyr yn hytrach nag ymgynghoreion yn unig, mae'n cryfhau llais y gymuned ac yn meithrin gallu, sgiliau a hyder cymunedau. Mae hyn yn sicrhau manteision parhaus i gymunedau a'r sector treftadaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i ymgysylltu cychwynnol. Cymunedau yw'r arbenigwyr ar yr hyn sydd ei angen arnynt. Mae modelau ymchwyl gweithredol yn rhoi lle i gymunedau nodi, myfyrio ar a mynd i'r afael â'u heriau a'u cyfleoedd eu hunain.

Argymhelliad: Dylai galwadau newydd am gyllid datganoledig gefnogi'r gwaith o ddatblygu modelau ymchwyl cyfranogol sy'n galluogi cymunedau i weithio fel ymchwilwyr ac arbenigwyr mewn lleoliadau treftadaeth. Gyda chefnogaeth partneriaid traws-sectoraidd, dylai prosesau cyllido gefnogi partneriaethau'n

well i weithio gyda chymunedau i nodi cwestiynau ymchwil perthnasol ac i gynhyrchu gwybodaeth a chynhyrchu allbynnau sy'n bwysig iddynt.

4. Cefnogi sefydliadau i newid ac i fesur effaith

Mae mynd i'r afael â rhwystrau i safleoedd treftadaeth Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau lleol a chenedlaethol addasu sut maent yn gweithio a sut maent yn mesur newid. Mae hyn yn golygu cyd-greu modelau cyflawni a gwerthuso newydd sy'n buddsoddi yn y bobl a'r lle o'u cwrpas. Mae'r newid diwylliannol hwn yn hanfodol er mwyn meithrin perthnasoedd teg a thymor hir.

Mae newid trawsnewidiol yn datblygu dros amser ac yn arwain at effeithiau gwerth uchel, ond fel arfer mae arian ond ar gael ar gyfer gwerthuso ymyriadau yn y tymor byr. Rhaid darparu adnoddau ar gyfer gwerthusiad tymor hir o fuddsoddiadau treftadaeth gyhoeddus er mwyn cael gwell tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a deall yr effeithiau ehangach ar newid unigol, cymunedol a sefydliadol.

Argymhelliad: Dylai cyllidwyr datganoledig a Chyrff Hyd Braich gyfleu modelau arfer da o gyd-greu a gwreiddio disgwyliadau bod sefydliadau diwylliannol yn cymryd cyfrifoldeb dros leihau rhwystrau i fynediad ac yn ymrwymo i fesur effaith hirdymor mewn gofynion cyllido. Drwy annog sefydliadau treftadaeth Gogledd Iwerddon i archwilio eu harferion mewnol, hyfforddiant staff a diwylliant sefydliadol fel rhan o ymrwymadau cyllido, bydd hyn yn blaenoriaethu effaith hirdymor, dysgu a newid agwedd sylweddol.

Rhagor o wybodaeth:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch i
www.creativecommunities.uk

Cysylltu â'r CIP

Lisa Rea Currie, Prifysgol y Frenhines, Belfast
l.reacurrie@qub.ac.uk

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau y DU
(Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) a'i gynnal ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.